

Llyn Efyrynwy i Aberdeen

Crynodeb o Gyflawniadau'r Project

Gwaith Rheolaeth

Mae Project LIFE Gorgors Fyw Cymru a ariannwyd gan yr UE wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac wedi mynd y tu hwnt i'w targedau adfer gwreiddiol. Drwy weithio ardderchog mewn partneriaeth, contractwyr lleol sydd ag enw da a chydweithio agos gyda ffermwyr lleol, mae'r project wedi cau 483 cilometr hynod o ffosydd yr ucheldir ar ACA Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd ac ACA'r Migneint-Arenig-Dduallt. Dyna gymaint â'r pellter o Lyn Efyrynwy i Aberdeen!

Llwyddwyd i sicrhau hyn yn bennaf diolch i 13 o ffermwyr lleol sydd wedi cydweithio â'r project i gau ffosydd ar eu tir eu hunain.

Hefyd, cliriwyd 248 ha o blanhigfa goniffer a chaewyd y ffosydd plannu. Cliriwyd cyfanswm o 11,479 o goed o'r orgors ger Llyn Efyrynwy'n unig, ond cliriwyd hefyd rywogaethau 'estron' anfrodorol (sbriws Sitca a Rhododendron yn bennaf) o Dan yr Allt, Pen y Bedw, Penrhyn Isaf a Phenaran.

Mae'r gwaith hwn wedi ail-wlychu 8,740 ha o ucheldir Cymru.



Projectau Eraill sy'n adfer Gorgorsydd Cymru


Nid yw'r gwaith o adfer yr orgors yn gyflawn ar hyd a lled ardaloedd y project. Mae rhwydweithiau draenio enfawr sydd angen eu cau yn dal i fodoli, mae coed anfrodorol angen eu cwmpo a rhaid gwella lefelau pori. Mae partneriaid y project wedi ymrwmo i barhau â'r gwaith hwn ledled Cymru, yn ogystal â chyrff eraill. Bydd Project Dalgylch Conwy Uchaf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn parhau i weithio gyda thenantiaid ar adfer yr orgors. Hefyd, mae gwaith ar y gweill eisoes drwy gyfrwng Project Pumlumon Ymddiriedolaeth Fyd Natur Sir Drefaldwyn yn ogystal ag ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Eryri.



Dros 23,000 o gofnodion, gwartheg ac eira

A yw'r holl waith rheolaeth gwych hwn wedi gwneud unrhyw wahaniaeth? Dengys gwaith monitro o effeithiau'r rheolaeth ar hydroleg (cymerwyd dros 23,000 o gofnodion) yr orgors cyn dechrau'r gwaith cau, bod ymateb i lifogydd wedi lleihau, bod ansawdd a lliw'r dŵr wedi gwella, a bod llai o fater organig yn cael ei olchi i lawr yr afon. Dengys y gwaith monitro llystyfiant ar lan Llyn Efyrynwy ac ym Mhenaran bod lleihad yn amrywiaeth rhywogaethau wrth ymyl y ffosydd agored ond bod amrywiaeth y rhywogaethau'n cynyddu'n raddol eto ar ôl eu cau. Bydd angen arolwg dilynol mewn ychydig o flynyddoedd i benderfynu'n union sut mae'r llystyfiant yn newid o ganlyniad i'r cau. Dengys yr arolygon nad oedd y ffosydd yn gwella'r llystyfiant ar gyfer da byw a bod eu cau'n lleihau'r tebygolrwydd bod defaid yn mynd yn sownd ynddynt ac yn boddli.

Ni fu'r holl waith monitro'n hawdd wrth gwrs. Sathrwyd yr offer gan wartheg a bu o dan ddwy droedfedd o eira am gyfnodau hir yn ystod y ddau aeaf diwethaf!



Gwaith yn Ymwneud â Chymunedau

Mae'r gwaith yn ymwneud â chymunedau wedi bod yn llwyddiant ysgubol; mae staff y project wedi ymweld ag ysgolion yn ardal y project ac mae'r disgyblion wedi cael mynd i rostir Llyn Efyrnwy i weld y gwaith eu hunain. Bu dros 1800 o blant yn cymryd rhan yn y project. Plant ysgol gynradd oedd y mwyafrif a ymwelodd â'r project ond mae grwpiau o athrawon o Ewrop a myfyrwyr o brifysgolion a lefela hefyd wedi ymweld â'r gors. Roedd mynd â'r plant i'r orgors ei hun yn hanfodol oherwydd dyma reolwyr y tir hwn yn y dyfodol. Cynhaliwyd sgursiau a theithiau tywys drwy gydol oes y project a mynychodd 2500 o bobl sgwrs am y project neu daith dywys. Ar Ddiwrnod Rhyngwladol yr Orgors ym mis Gorffennaf 2010 daeth dros 500 o bobl draw i ddysgu mwy am yr orgors ac amaethu lleol. Dywedodd llawer iawn nad oeddent wedi sylweddoli beth oedd yma ar riniog eu drws a pha mor bwysig yw'r orgors.

Digwyddiadau

I "fynd â'r orgors i bobl", mae'r project wedi cynnal stondinau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala, Sioe Frenhinol Cymru a'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol yng Ngherrigydudion. Daeth dros 90 o ffermwyr neu aelodau o'r gymuned amaethyddol draw i'n diwrnod arddangos i ffermwyr ar lan Llyn Efyrnwy.



Nerys Evans (AC) a Jan Evans yn y Sioe Frenhinol Cymru - 2010



Diwrnod Rhyngwladol yr Orgors Gorffennaf 2010

Uchafbwyntiau

Yn sicr, un o'r uchafbwyntiau oedd y digwyddiad "Natur ein Bro" a drefnwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru'n ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, gyda'r project yn ganolbwynt. Ymwelodd wyth o ysgolion cynradd ardal Y Bala â'r project ac ysgrifennu cerddi am yr orgors. Darllenwyd y rhain ganddynt wedyn ym Mhabell Lân yr Eisteddfod. Dyma ddigwyddiad pwysig i'r project ac oherwydd cyfraniad y plant bu'n llwyddiant aruthrol. Hefyd, ysgrifennodd y bardd lleol, Robin Hughes, gerdd o'r enw "Gorgors y Berwyn" ar gyfer y project i'w harddangos yn yr Eisteddfod.

Glastir

Wrth ysgrifennu hyn o lith mae cyfnod gwneud cais am Elfen Drwy Gymru Glastir wedi dod i ben ar gyfer dechrau gwaith yn 2012. Dewisir ffermydd i'w rhoi gerbron ar gyfer elfen wedi ei thargedu Glastir yn 2013 o'r ymgeiswyr hyn. Credir mai yn yr elfen wedi ei thargedu y bydd y math o reolaeth a gyflawnwyd gan y project yn cael ei hariannu, hynny yw, cau ffosydd a chlirio Rhododendron. O'r 5 thema yn yr elfen wedi ei thargedu mae Cynulliad Cymru wedi datgan, "yn nwy flynedd gyntaf y cynllun bydd y system sgorio yn canolbwyntio ar ddarparu gwell storfa o garbon a rheolaeth dwr". Bydd y math o reolaeth a wnaed gan y project dros y pum mlynedd diwethaf yn ateb y ddau nod hyn.

Fel gyda phob project sy'n cael ei ariannu o fewn cyfnod penodol, mae perygl y bydd yr hwb a gafwyd gan y gwaith yn dod i ben. Mae'n bwysig bod Glastir yn darparu hwb ariannol i barhau â'r gwaith adfer ymarferol. I sicrhau dealltwriaeth gyflawn a pharhaus o wir natur effeithiau cau ffosydd ar ddŵr, carbon, y cynefin ac amaethu, mae'n hanfodol bod yr arolygon hydrolegol a llystyfiant a roddwyd ar waith fel rhan o'r project hwn yn parhau. Mae'r orgors yn newid yn eithriadol o araf gyda threigl amser ac efallai y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i weld canlyniadau terfynol y gwaith ymarferol.

Gwefan

Bydd gwefan y project (www.gorgorscymru.org) yn dal yn weithredol wedi i'r project ddod i ben. Chwiliwch am newyddion diweddaraf neu ewch i weld cerddi'r Eisteddfod neu'r DVD am y project a gyflwynir gan Iolo Williams.

